**COFNODION CYFARFOD CYNTAF**
**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y CANOLBARTH**
**A GYNHALIWYD AR ZOOM**
**DDYDD MAWRTH, 25 IONAWR 2022**

**YN BRESENNOL**

<u>Ceredigion</u>

Y Cynghorydd Sir Ellen Ap Gwynn, Arweinydd

Eifion Evans, Prif Weithredwr

Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol

Elin Prysor, Swyddog Monitro a Swyddog Arweiniol Corfforaethol

Stephen Johnson, Swyddog Adran 151 a Swyddog Arweiniol Corfforaethol

Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd

Nicola Davies, Cyfieithydd

<u>Powys</u>

Y Cynghorydd Sir Rosemarie Harris, Arweinydd

Dr Caroline Turner, Prif Weithredwr

Clive Pinney, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

Nicola Williams, Rheolwr Cyflawni Rhaglenni Strategol

Anne Phillips, Dirprwy Bennaeth Cyllid

Julie Williams, Swyddog Cefnogi Rhaglenni - yn cymryd nodiadau

<u>Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog</u>

Y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe, Cadeirydd

Helen Lucocq, Rheolwr Strategaeth a Pholisi

| 1. | CROESO A CHYFLWYNIADAU |
|---|---|

Croesawodd y Cynghorydd Sir Ap Gwynn bawb i achlysur hanesyddol y cyfarfod cyntaf rhwng Cynghorau Sir Powys a Cheredigion ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig Y Canolbarth yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

| 2. YMDDIHEURIADAU |
|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y canlynol -

Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Gweithredol yr Economi a'r Amgylchedd

Catherine Mealing-Jones, Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## 3.PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Harris y cynnig isod ac fe eiliodd y Cynghorydd Sir Ratclife

**a PHENDERFYNWYD y dylid penodi'r Cynghorydd Sir Ap Gwynn yn gadeirydd am y flwyddyn i ddod.**

**PENDERFYNWYD hefyd y dylid penodi'r Cynghorydd Sir Harris yn Is-gadeirydd am y flwyddyn i ddod.**

Cynigiwyd y dylai Arweinwyr Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion ymgymryd â swydd Cadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig Y Canolbarth bob yn ail flwyddyn.

## 4. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd buddiannau personol a oedd yn gysylltiedig â'r materion i'w hystyried ar yr agenda.

## 5. PENODI SWYDDOGION STATUDOL CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y CANOLBARTH (CCC)

Roedd y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig benodi tri swyddog statudol yn cynnwys: Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid ('Swyddog Adran 151') a Swyddog Monitro a Phriodol. Bydd rôl y Prif Weithredwr yn cyfnewid bob blwyddyn rhwng Prif Weithredwyr Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion.

**PENDERFYNWYD penodi'r canlynol:**

1. **Dr Caroline Turner, Cyngor Sir Powys, fel Prif Weithredwr.**
2. **Stephen Johnson, Cyngor Sir Ceredigion fel y Prif Swyddog Cyllid / Y Swyddog Adran 151.**
3. **Clive Pinney, Cyngor Sir Powys fel y Swyddog Monitro a'r Swyddog Priodol.**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau wrth drefnu'r cyfarfod hyd yma gan longyfarch pawb ar eu rolau newydd gyda CCC.

## 6. MABWYSIADU RHEOLAU SEFYDLOG/CYFANSODDIAD CCC

Roedd yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wneud Rheolau Sefydlog i reoleiddio ei drafodion a'i fusnes. Dywedodd y Swyddog Monitro fod y rheoliadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru’n rhagweld y byddai Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithio o fewn 'y teulu Llywodraeth Leol' ac y byddai ganddynt yr un pwerau a dyletswyddau ag Awdurdodau Lleol i raddau helaeth. Gwelwyd hyn yn y rheolau sefydlog drafft.

Er bod CCC yn gorff corfforaethol a gallai gyflogi staff a chael ei gyllideb ei hun, enwebwyd swyddogion o Bowys a Cheredigion i weithio fel Swyddogion CCC.

Byddai aelodaeth CCC yn cynnwys dau Arweinydd yr Awdurdodau Lleol, gyda chynrychiolydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wrth ymwneud â'r Cynllun Datblygu Strategol. Er mwyn galluogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i wneud ei swyddogaethau, awgrymwyd y dylid sefydlu tri is-bwyllgor:

- Yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol
- Yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd
- Yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol

Ar ben hyn, penodir Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Pwyllgor Safonau a Phwyllgor Craffu a Throsolwg maes o law.

Wrth ymateb i gwestiynau am swyddogaeth y Parc Cenedlaethol o ran llywodraethu a chraffu, dywedodd y Swyddog Monitro fod disgwyl rhagor o ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ar y materion hynny.

**PENDERFYNWYD**

1. **Mabwysiadu’r Rheolau Sefydlog ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig a derbyn y cyfeiriad arfaethedig ar gyfer y Cyfansoddiad yn Atodiad 1 yr Adroddiad.**
2. **Dirprwyo’r awdurdod i’r swyddog monitro i wneud newidiadau golygyddol i’r rheolau sefydlog ar gyfer eu cyhoeddi.**
3. **Cymeradwyo creu’r is-bwyllgorau a nodwyd ym Mharagraff 18 yr Adroddiad.**

## 7. BLAENRAGLEN WAITH CCC

Ystyriodd y Cydbwyllgor Corfforedig y flaenraglen Waith.

Dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd cyfrifoldeb am y tair swyddogaeth yn trosglwyddo i CCC tan fis Gorffennaf felly roedd y canllawiau ychydig yn amwys. Disgwylid *tranche* 3 o'r canllawiau ar unrhyw adeg ac yna *tranche* 4 y canllawiau yng

Ngwanwyn 2022. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai gwaith yn mynd rhagddo yn y cefndir i sicrhau bod pethau'n barod ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo blaenraglen waith CCC.**

## 8. CYLLIDEBAU BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL 2021/22 A 2022/23

Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig ei Gyllideb ar gyfer 2021/22 a 2022/23.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo’r Gyllideb Wariant Gyffredinol ar gyfer CCC ar gyfer 2021/22 o ddim, felly fyddai ardoll yn cael ei chodi yn erbyn Cynghorau Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion**

2. **Cymeradwyo’r Gyllideb Wariant Gyffredinol ar gyfer CCC ar gyfer 2022/23 o £120,000 fel y nodir yn Atodiad A.**

3. **Cymeradwyo llinell gyllideb wrth gefn o £3,000 yn y Gyllideb Wariant Gyffredinol ar gyfer CCC ar gyfer 2022/23.**

4. **Cymeradwyo cyllideb o sero i’w chadw wrth gefn i ddiwallu gwariant yr eir iddo mewn blynyddoedd i ddod o’r Gyllideb Wariant Gyffredinol ar gyfer CCC ar gyfer 2022/23.**

5. **Os bydd tanwariant erbyn diwedd 2022/23 yn erbyn y Gyllideb Gyffredinol, dylid cymeradwyo cadw’r tanwariant mewn cronfa a neilltuwyd ar gyfer gwariant y Gyllideb Gyffredinol ar gyfer blynyddoedd i ddod.**

6. **Cymeradwyo swm o ddim i fodloni rhwymedigaethau sy'n ddyledus o ran unrhyw flwyddyn ariannol gynharach o Gyllideb Gwariant Cyffredinol CCC ar gyfer 2022/23.**

7. **Cymeradwyo ardoll y gellir ei chodi yn erbyn Cynghorau Sir Powys a Cheredigion o £60,000 yr un mewn perthynas â Chyllideb Gwariant Cyffredinol CCC ar gyfer 2022/23.**

Mewn perthynas â’r Gyllideb Cynllunio Strategol:

8. **Cymeradwyo'r Gyllideb Gwariant Cynllunio Strategol ar gyfer CCC ar gyfer 2021/22 o sero ac felly ni chodir ardoll ar Gynghorau Sir Powys a Cheredigion nac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.**

9. **Cymeradwyo Cyllideb Gwariant Cynllunio Strategol ar gyfer CCC ar gyfer 2022/23 o £40,000 fel y nodir yn Atodiad A.**

10. **Cymeradwyo llinell gyllideb wrth gefn o £1,000 o fewn Cyllideb Gwariant Cynllunio Strategol CCC ar gyfer 2022/23.**

11. **Cymeradwyo Cyllideb dim swm i'w chadw fel cronfa wrth gefn i dalu am wariant yr eir iddo mewn blynyddoedd i ddod o'r Gyllideb Gwariant Cynllunio Strategol ar gyfer CCC ar gyfer 2022/23.**

12. **Os bydd tanwariant erbyn diwedd 2022/23 yn erbyn y Gyllideb Cynllunio Strategol, dylid cymeradwyo y bydd y tanwariant hwnnw'n cael ei gadw mewn cronfa wrth gefn a neilltuwyd ar gyfer gwariant Cynllunio Strategol mewn blynyddoedd i ddod.**

13. **Cymeradwyo swm o ddim i fodloni rhwymedigaethau sy'n ddyledus mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol gynharach o'r Gyllideb Gwariant Cynllunio Strategol ar gyfer CCC ar gyfer 2022/23.**

14. **Cymeradwyo ardoll y gellir ei chodi yn erbyn Cynghorau Sir Powys a Cheredigion o £18,283 yr un ac ardoll o £3,434 y gellir ei chodi yn erbyn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn perthynas â Chyllideb Gwariant Cynllunio Strategol CCC ar gyfer 2022/23.**

9. CYTUNO AR BA MOR AML Y DYLID CYNNAL CYFARFODYDD Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG YN Y DYFODOL

Dywedodd y Swyddog Monitro fod yn rhaid cynnal cyfarfod CCC ar ôl yr etholiadau ym mis Mai ond gellid galw cyfarfod ynghynt i gymeradwyo penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion i'r is-bwyllgorau

10. UNRHYW FATER ARALL

Ni chafwyd materion eraill i'w trafod.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu gwaith paratoi a'u cyfraniad hyd yma i'r gwaith sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig Y Canolbarth.

**Y Cynghorydd Sir Ellen ap Gwynn**

**Cadeirydd**

